



## Gŵyl Ffilm ac Animeiddio Ysgolion Sir Benfro 2015



Cynhelir 8fed Gŵyl Ffilm ac Animeiddio Sir Benfro eleni rhwng Gorffennaf 8ydd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw Dydd Llun Mehefin 8ydd. Mae gennym weithdai ardderchog mewn golwg, yn rhad ac am ddim, gan Into Ffilm yn ogystal â chyflwyno gwobrau mewn digwyddiad tebyg i'r Oscars yn Theatr y Torch brynhawn Gorffennaf 8ydd am 1yp. Ni ddylai ffilmiau barhau'n fwy na 3 munud. Caiff ysgolion cynradd gyflwyno hyd at 2 ffilm/animeiddiad. Caiff ysgolion Uwchradd gyflwyno hyd at 4 ffilm / animeiddiad. Bydd yr ŵyl hefyd yn chwilio am gynigion wedi'u cynhyrchu gan bobl ifanc tu allan i'r ysgol, gallan nhw rhoi cynnig trwy fynd at flog yr ŵyl [www.pembrokeshirefilm.org](http://www.pembrokeshirefilm.org) er mwyn cael y cyfle i ennill gwobr o £100. Byddem yn ddiolchgar felly os fydddech chi cystal â throsglwyddo'r wybodaeth yma i fyfyrwyr yn yr ysgol trwy arddangos y poster a atodir.

Yn ôl yr arfer, nid oes thema ar gyfer cynigion ond rydym ni fel arfer yn gwneud awgrymiadau ar gyfer ysgolion a hoffai syniadau ar Flog yr Ŵyl Ffilmiau.

Rhaid cyflwyno cynigion ar CD, ffon gof USB neu ar y we ar fformat .wmv .mov or .mp4 (dim DVDs gyda dewislenni os gwelwch yn dda).

A fydddech cystal â sicrhau bod eich ffilmiau ac animeiddiadau yn addas ar gyfer cynulleidfa ifanc – medylwch am 'Doctor Who' lle, ar y gwaethaf, mae na bosibilrwydd o bethau drwg yn digwydd ond, ar y gwaethaf, bydd trais a phethau allai godi ofn yn cael eu hawgrymu'n hytrach na'n cael eu dangos mewn manylder!

Hefyd wnewch chi sicrhau bod y ffurflen ganiatâd a atodir wedi ei chwblhau gan rhieni pob plentyn sy'n cymryd rhan yn eich ffilmiau ac animeiddiadau. Bydd pob cynnig yn cael ei ddangos ar Flog yr Ŵyl Ffilmiau ac mae ffurflenni caniatâd rhieni yn ofynnol ar gyfer y Gwobrau Ffilm Cenedlaethol.

Rhaid i bob cynnig gael ei ffilmio a'i olygu gan blant gyda chyingor a chefnogaeth gan oedolion lle bo'i angen. Os bydd ffilm neu animeiddiad yn edrych mor dda fel eich bod o'r farn na fydd neb yn credu mai'r plant sydd wedi ei greu eu hunain yna efallai dylech chi ystyried cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod y plant yn ymwneud â'r peth ym mhob cam o'r cynhyrchiad!

Dyma'r categorïau:

Ffilm Orau neu Animeiddiad Gorau CA1

Ffilm Orau neu Animeiddiad Gorau CA2

Ffilm Orau neu Animeiddiad Gorau Uwchradd

Gwobr Cynulleidfa y Western Telegraph (£100)

Y gwobr 'Indie' (£100)



# Gŵyl Ffilm ac Animeiddio Ysgolion Sir Benfro 2015



## Meini Prawf Beirniadu

Unwaith eto mae elfen gystadleuol i'r Wyl Ffilmiau. Golyga hyn ein bod yn medru gosod ffilmiau ac animeiddio ysgolion Sir Benfro ar y llwyfan cenedlaethol trwy gystadlu gyda rhai ohonynt yn y Gwobrau Cenedlaethol Media4Schools. Prif amod cystadlu ar gyfer y Gwobrau yw'r gofyn bod y ffilm wedi ennill cystadleuaeth rhanbarthol. Byddwn yn rhoi ennillwyr y categorïau ymlaen ar gyfer y gystadleuaeth ynghyd â'r ysgolion sydd ganddynt gynigion gyda chanmoliaeth uchel. Isod ceir y meini prawf ar gyfer y gystadleuaeth genedlaethol, efallai bydd rhain yn rhoi canllawiau i chi ar gyfer cynllunio eich ffilmiau. Bydd ein beirniaid ni yn dilyn y canllawiau hyn hefyd.

## Ennyn diddordeb y gynulleidfa

Bydd y beirniaid yn chwilio am ffilmiau sydd:

- yn dangos deallusrwydd o sut i ddefnyddio amrywiaeth o saethiadau e.e. hir, canol, agoslun
- wedi'u golygu'n dda
- yn ennyn diddordeb, yn ysgogol ac yn procio meddyliau
- yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged
- yn cadw at y thema gosodedig (lle bo hynny'n addas) neu'n dangos pwrpas eglur (e.e.hysbyseb)
- fideo diogelwch neu fideo sy'n cyfarwyddo

## Arloesedd a Chreadigrwydd

Bydd beirniaid yn chwilio am ffilmiau :

- sydd â gwerth addysgiadol
- sydd yn berthnasol i un ardal neu fwy o'r cwricwlwm

## Tystiolaeth o Gynhwysiad

Bydd beirniaid yn chwilio am ffilmiau :

- sy'n dangos ymdrech gydweithredol gan grŵp o ddisgyblion
- sy'n dangos tystiolaeth fod ymdrechion pob disgybl yn cael eu hystyried waeth beth yw eu gallu

## I'ch Helpu Chi Gyda'ch Ffilm

Mae pecyn gwneud ffilmiau i ysgolion ar gael ar Borth Penfro yn yr ardal Dysgu ac Addysgu/ Rhwydweithiau Pwnc/TGCh/Adnoddau sy'n cynnwys nodiadau technegol ar animeiddio, ffilmio a golygu. Mae ffilmiau ac animeiddiadau o'r 7 mlynedd diwethaf i'w gweld ar Flog yr Wyl Ffilmiau ar [www.pembrokeshirefilm.org](http://www.pembrokeshirefilm.org) - mae'n werth darllen rhai o'r adolygiadau er mwyn cael gair i gall adeiladol ac i ddarganfod pa agweddau o ffilm ac animeiddio sy'n cael eu hystyried yn arfer dda.



# Pembrokeshire Schools Film and Animation Festival 2015



School: \_\_\_\_\_

Teacher: \_\_\_\_\_

Contact Number: \_\_\_\_\_

Number of Films/Animations: \_\_\_\_ Film (s) \_\_\_\_ Animation(s)

Title(s) of Film/Animation: \_\_\_\_\_

Number of people attending: \_\_\_\_\_

Please complete this form and return by 7th June, with your entry, to:  
Duncan Whitehurst, Education, County Hall, Haverfordwest, Pembrokeshire SA61 1TP  
Or e-mail: [duncan.whitehurst@pgfl.org.uk](mailto:duncan.whitehurst@pgfl.org.uk)  
Mobile: 07867 381354



# Gŵyl Ffilm ac Animeiddio Ysgolion Sir Benfro 2015



Ysgol: \_\_\_\_\_

Athro: \_\_\_\_\_

Rhif Cyswllt: \_\_\_\_ Ffilm \_\_\_\_ Animeiddio

Teitl(au) Ffilm/Animeiddiad: \_\_\_\_\_

Nifer y disgyblion y dymunwch ddod gyda chi: \_\_\_\_\_

Cwblhewch y ffurflen hon a'i dychwelyd i Duncan Whitehurst, Education, County Hall,  
Haverfordwest, Pembrokeshire SA61 1TP  
neu ebostiwch [duncan.whitehurst@pgfl.org.uk](mailto:duncan.whitehurst@pgfl.org.uk)  
Ffôn symudol: 07867 381354



# Ffurflen Ganiatâd Gŵyl Ffilm ac Animeiddio Sir Benfro 2015



Yr wyf yn rhoi caniatâd i'm plentyn \_\_\_\_\_  
ymddangos mewn, neu gymryd rhan mewn cynhyrchu:

\_\_\_\_\_ (enw'r project fideo)

sy'n cael ei wneud gan :

\_\_\_\_\_ (enw'r ysgol/sefydliad ).

Deallaf na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu ynglŷn ag enwi'r plentyn (ar wahân i enwi'r ysgol neu sefydliad)

Yr wyf yn deal ei bod yn bosibl y bydd y delweddau yn cael eu defnyddio mewn, a'u dosbarthu gan, gyfryngau ar wahân i gyhoeddiadau mewn print, megis, ond heb eu cyfyngu i: fideo, DVD, CD-Rom neu'r We Fyd-Eang.

Yr wyf wedi darllen ac yr wyf yn deall yr holl wybodaeth uchod ac yr wyf yn cytuno bod delweddau llonydd a fideo o'm plentyn yn cael eu defnyddio gan Wyl Ffilm ac Animeiddio Ysgolion Sir Benfro.

Yr wyf yn cytuno hefyd y gellir defnyddio'r fideo mewn cystadleuthau a Gŵyliau Ffilm eraill sy'n briodol.

ENW'R RHIANT NEU WARCHEIDWAD:

\_\_\_\_\_

ENW'R YSGOL A FYNYCHIR:

\_\_\_\_\_

DYDDIAD LLOFNOD:

\_\_\_\_\_

A fyddech cystal â chwblhau, llofnodi a dychwelyd y ffurflen yma i 'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth yn yr ysgol sy'n gwneud y ffilm/animeiddiad..

Os mai cynnig annibynnol yw hwn, wedi ei wneud gan fyfyrwr gartref, yna dychwelwch y ffurflen gyda'r cynnig at :

Duncan Whitehurst  
Addysg  
Adain y Gogledd  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd  
SA61 1TP

Neu sganiwch y ffurflen ar ôl ei chwblhau ac e-bostiwch hi at: [duncan.whitehurst@pgfl.org.uk](mailto:duncan.whitehurst@pgfl.org.uk)